



Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Testun

Mehefin 2019

Papur Testun 10: Mwynau a Gwastraff

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Pwrpas y Papur Testun hwn.....	4
3. Prif Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi	4
3.1 Newidiadau Ewropeaidd a Chenedlaethol.....	4
3.2 Effeithiau ar Lefel Ranbarthol.....	6
3.3 Cyd-destun, Polisiâu a Strategaethau Lleol	7
4. Polisi CDLI – Y Sefyllfa Bresennol.....	8
5. Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu.....	8
6. Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddarau.....	10
6.1 Papur Cefndir Rheoli Gwastraff 36.....	10
6.2 Papur Cefndir Mwynau 37.....	10
7. Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol	10
8. Polisiâu a Chynigion Defnydd Tir Posibl.....	10
9. Yr Angen am Sail Dystiolaeth Bellach	13
10. Casgliad.....	13
Atodiad 1 – Polisiâu Presennol y CDLI.....	14

1. Cyflwyniad

Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yw'r cynllun defnydd tir cyntaf a mwyaf blaenllaw sy'n nodi cyfleoedd i ddatblygu ar gyfer safleoedd penodol mewn ymateb i anghenion y gymuned am ragor o dai, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn ceisio cynnal, amddiffyn a gwella, lle bo hynny'n briodol, yr agweddau hynny ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n bwysig wrth ddiffinio ansawdd a sensitifrwydd y lleoedd rydym yn eu gwerthfawrogi, eu mwynhau, symud drwyddynt, a byw ynddynt. Nod y CDLI yn y pen-draw fydd cyflenwi datblygu cynaliadwy.

Mae'r CDLI yn gerbyd sy'n caniatáu'r Cyngor i ddiffinio ei flaenoriaethau twf a datblygu allweddol a bydd yn darparu fframwaith parhaus o bolisiau i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

2. Pwrpas y Papur Testun hwn

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun a luniwyd i lywio cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLI Newydd). Eu nod yw dehongli'r dystiolaeth a'r canllawiau perthnasol mewn perthynas â'r testun penodol a nodi'r materion allweddol y bydd angen i'r Cynllun fynd i'r afael â nhw yn ogystal â dulliau polisi i'w hymgorffori yn y Cynllun. Lluniwyd pob papur testun o dystiolaeth fanwl yn deillio o Bapurau Cefndirol y CDLI (dogfennau technegol sy'n ffurfio'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLI Newydd.) Mae papurau testun wedi eu cynllunio i drafod meysydd testun allweddol sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd yn y CDLI a fabwysiadwyd ac yn crynhoi'r data technegol sydd wedi ei gynnwys yn y Papurau Cefndirol fel bod y data a gyflwynir yn hygyrch i ddarllenwyr. Mae papurau testun yn gosod safle llinell sylfaen ac yn nodi materion allweddol sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol y bydd angen i'r CDLI Newydd fynd i'r afael â nhw.

Bwriad y Papurau Testun yw rhoi cyfle cynnar i fudd-ddeiliaid a'r cyhoedd i gyfrannu at y Cynllun. Mae'r papur testun hwn yn ymdrin â'r materion allweddol sy'n ymwneud â Mwynau a Gwastraff.


3. Prif Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi

3.1 Newidiadau Ewropeaidd a Chenedlaethol

3.1.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i gyrff cyhoeddus, megis Cynghorau, feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well â sefydliadau eraill a chymunedau i atal problemau a defnyddio dull mwy cysylltiol.

Mae gan y Ddeddf hon saith nod lles, sef:



Mae'n rhaid i'r holl gyrrff cyhoeddus y sonnir amdanynt yn y Ddeddf Llesiant ymgymryd â datblygu cynaliadwy.

"Mae'n rhaid i'r cam y mae corff cyhoeddus yn ei gyflawni i ddatblygiad cynaliadwy gynnwys:

- gosod a chyhoeddi amcanion ("amcanion lles") sydd wedi'u llunio i wella ei gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau lles, a
- chymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i fodloni'r amcanion hynny."

(ffynhonnell – Rhan 2 'Gwella Lles' rhan 3 'dyletswydd lles ar gyrrff cyhoeddus' paragraffau (1) a (2)).

Mae'r Ddeddf yn diffinio "datblygu cynaliadwy" fel proses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ceisio cyrraedd y nodau lles.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal. Bydd pob un yn cael eu cynnwys ym mhroses y CDLI Newydd.

3.1.3 Newidiadau i Reoleiddio Gwastraff

Bu nifer o newidiadau i'r diwydiant gwastraff a sut y caiff ei reoleiddio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cyflwyno i annog rheoli cynaliadwy o wastraff, lleihau pwysau rheoleiddio lle bo'n briodol gwneud hynny, er enghraifft Diwedd Gwastraff, a chynyddu rheoleiddio lle bo achos gwneud hynny. Trafodir y newidiadau mwyaf sylweddol isod.

Daeth y gofyniad i gasglu gwastraff ar wahân i rym o'r 1 Ionawr 2015. Mae'r gofynion yn berthnasol i wastraff o bob ffynhonnell, gan gynnwys gwastraff masnachol a diwydiannol, ac yn golygu bod yn rhaid darparu casgliadau ar wahân ar gyfer papur, metel, plastig a gwyr neu, os cesgllir y rhain yn gymysg, mae'n rhaid eu prosesu i safon briodol. Mae'r gofyniad hwn yn ychwaneg at y gofyniad i drin gwastraff ymlaen llaw cyn ei waredu i'w dirlenwi sydd wedi bod mewn grym ers 2007.

3.1.4 Trethi Tirlenwi

Mae cyfraddau trethi tirlenwi wedi cynyddu'n sylweddol ers mabwysiadu'r CDLI. Y gyfradd yn 2012/13 oedd £64 fesul tunnell ar gyfer y gyfradd safonol a £2 y tunnell am y gyfradd is. Ar hyn o bryd mae'r trethi tirlenwi yn £88.95 fesul tunnell ar gyfer y gyfradd safonol a £2.80 ar gyfer y gyfradd is. Mae hyn yn lleihau gallu safleoedd tirlenwi i gystadlu gyda mathau eraill o reoli gwastraff nad ydynt yn destun trethi tirlenwi.

3.1.5 Polisi Cynllunio Cenedlaethol – Mwynau

Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru wedi'i ymgorffori o fewn Polisi Cynllunio Cymru, ond mae'r cynnwys yr un fath o hyd. Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 a 2 hefyd yn parhau i fod yn weithredol. Mae MTAN1 yn nodi lle bo banciau tir eisoes yn darparu ar gyfer mwy nag 20 mlynedd o echdynnu agregau, ni fydd dyraniadau newydd yn ofynnol. Fodd bynnag, mae Llythyr Eglurhaol CL-05-14 wedi cynghori nad yw hyn yn adlewyrchu cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol o 15 mlynedd, y goblygiad yw nad yw'n ddigonol i lunio casgliad bod cael 20 mlynedd neu fwy o fanc tir yn ddigonol ac y byddai'n ddarparu llunio'r casgliad hwn pe bai banc tir o 25 mlynedd neu fwy yn unig.

Cyhoeddodd Cymdeithas Ddaearogol Prydain Fap Diogelu Agregau Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2012 cyn mabwysiadu'r CDLI ac fe ymdriniodd y Cyngor ag ef yn ystod y broses archwilio. O ganlyniad i gyhoeddi'r Map cynyddwyd maint yr ardaloedd a nodwyd o dan y polisi diogelu ac fe gyflwynwyd parthau clustogi o amgylch yr ardaloedd y dylid eu diogelu.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Polisi Cynllunio Cymru 10. Y newidiadau mwyaf yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer mwynau ynni. Nid oes gan Gonwy adnoddau glo ac felly nid yw'n berthnasol i'r Fwrdeistref Sirol. Mae manteisio ar nwy dwfn hefyd yn annhebygol oherwydd presenoldeb methan hygyrch ar wely glo yng Nghaeau Glo Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

3.1.6 Polisi Cynllunio Cenedlaethol – Gwastraff a Dogfennau Polisi Gwastraff Allweddol

Ers mabwysiadu'r CDLI mae nifer o newidiadau polisi wedi digwydd a fydd yn achosi goblygiadau ar gyfer gwastraff. Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiwygio sawl gwaith gyda newidiadau sylweddol i'r polisi gwastraff. Mae'r gofyniad i gynhyrchu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi'i ddiwygu, er mae gofyniad i gynnal gwaith monitro i sicrhau bod capasiti gwaredu ac adfer digonol yn bodoli o fewn rhanbarth. Mae'n rhaid i'r Cynlluniau Datblygu ddangos sut mae'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol, gan gynnwys Cynllun Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd Sector (2012) ac unrhyw ddiweddariad monitro, wedi'u hystyried.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol yn 2010, fodd bynnag, mae cyfres o Gynlluniau Sector yn cael eu cynhyrchu sy'n berthnasol i'r CDLI. Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 hefyd wedi'i ddiwygio i sicrhau bod fframwaith cynllunio defnydd tir yn adlewyrchu gofynion y Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol a'r Cynlluniau Sector cysylltiol.

3.2 Effeithiau ar Lefel Ranbarthol

Ar gyfer mwynau, mae darpariaeth ar gyfer agregau o fewn awdurdodau lleol unigol, grwpiau o awdurdodau a grwpiau rhanbarthol yn cael eu harwain gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol (RTS), sy'n ofyniad ym mharagraff 50 o Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (Mawrth 2004) (MTAN). Mae'r datganiad technegol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2020. Bydd yr RTS diwygiedig yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw ddosraniad sy'n ofynnol i sicrhau bod cyflenwad digonol o greigiau mân ac agregau graean, gan gynnwys yr isafswm darpariaeth a argymhellir o 7 mlynedd o dywod a graean a 10 mlynedd o greigiau mân fel y nodwyd ym Mharagraff 49 o MTAN1 ar gael am gyfnod cyfan unrhyw CDLI, gan gydnabod argaeledd gofodol adnoddau mwynau addas ar draws pob ardal awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd mae banc tir sylweddol o gronfeydd creigiau mât a ganiateir yng Nghonwy a rhagwelir y bydd yn para am gyfnod cyfan y CDLI a'r 10 mlynedd o fanc tir, ac fe gredir ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw ofyniad sylweddol i wneud darpariaeth ychwanegol. Yn dibynnu ar ganlyniadau adolygiad yr RTS yn 2020, efallai y bydd angen i awdurdodau cyfagos gydweithio i fodloni unrhyw raniad rhanbarthol neu isranbarthol os nad yw unrhyw ALL yn gallu gwneud eu darpariaethau eu hunain. Mae absenoldeb unrhyw adnoddau tywod a graean heb gyfyngiadau ac sy'n hyfyw yn fasnachol, yn bennaf gan eu bod ar ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd ar yr arfordir ac ar ddyffryn afon Conwy, neu ar nentydd ucheldir cul, gan olygu bod unrhyw ddarpariaeth sydd ei angen ar gyfer Conwy o ran tywod a graean yn fwy tebygol o gael ei ddiwallu drwy ddostran yng Ngwynedd yn amodol ar Adolygiad RTS.

Gan y bydd cyhoeddi'r RTS yn digwydd yn gynnar yn 2020 yn ystod cynhyrchiad/craffu ar y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd, byddai angen i'r polisi ac unrhyw ofynion am ddyraniadau (dyraniadau safle penodol, ardaloedd a ffefrir neu ardaloedd chwilio) gael eu cynnal fel rhan o waith adolygu a monitro'r CDLI yn y dyfodol.

Ar gyfer Gwastraff, mae nifer o adroddiadau monitro rhanbarthol wedi'u cyhoeddi sy'n dangos bod casgliadau gwastraff gan yr awdurdod lleol yn y Sir wedi gostwng ers 2008 ac mae'r cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu'n gyffredinol. Y prif gasgliad hyd yn hyn yw nad oes angen capasiti gwaredu ychwanegol yn y rhanbarth ac y dylai unrhyw ofyniad pellach ar gyfer capasiti trin gwastraff gweddilliol gael ei ystyried yn ofalus i sicrhau na fyddai'r cyfleuster yn arwain ar orddarpariaeth.

Mae ehangu'r cyfleusterau presennol a datblygu cyfleusterau newydd wedi dylanwadu ar sut y rheolir gwastraff ac ymhle. Mae awdurdodau lleol wedi cael ysgogiad ariannol i gaffael capasiti ymroddedig ar gyfer rheoli gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol. Mae nifer o gyfleusterau wedi'u datblygu ar draws Cymru mewn ymateb i hyn, gan gynnwys Parc Adfer a'r cyfleuster AD yn Rhualt, Sir Ddinbych sydd yn berthnasol i Gonwy. Mae'r ddau gyfleuster wedi'u caffael i reoli'r gwastraff sy'n cael ei gasglu gan Gyngor Conwy. Mae gan Barc Adfer y capasiti i reoli rhywfaint o wastraff masnachol a diwydiannol, er y byddai'r swm y gellir ei reoli yn dibynnu ar ofynion yr Awdurdodau Partner. Gallai datblygiad cyfleusterau o'r fath effeithio ar gwmnïau rheoli gwastraff masnachol sy'n dibynnu ar gontractau awdurdodau lleol.

O ganlyniad i lai o wastraff yn cael ei gyflwyno i safleoedd tirlenwi, mae wedi effeithio ar hyfywedd economaidd tirlenwi. Mae nifer o safleoedd gwaredu yng Nghymru wedi cau cyn eu cwblhau oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu yn erbyn y referniw a gynhyrchi drwy gyflwyno gwastraff. Mae'r safleoedd tirlenwi sy'n weddill yn rhanbarth Gogledd Cymru yn cael eu gweithredu gan gwmnïau masnachol a allai wneud penderfyniadau gweithredol tebyg. Byddai hyn yn golygu na fyddai digon o gapasiti yn y rhanbarth a byddai angen fframwaith polisi i nodi safle/safleoedd ychwanegol. Yn y pen-draw, mae hwn yn fater y mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef.

3.3 Cyd-destun, Polisiâu a Strategaethau Lleol

3.3.1 Cynllun Corfforaethol Conwy 2017 -2022

Pwrpas y Cynllun Corfforaethol yw cyflwyno Blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rhwng 2017 a 2022. Y blaenoriaethau ydi'r meysydd mae'r Cyngor eisiau rhoi sylw arbennig iddynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau i ddinasyddion.

Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Mae pobl wedi'u haddysgu ac yn fedrus;
- Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae gan bobl fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.

- Mae pobl yn iach ac yn egnïol.
- Mae pobl yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus.
- Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
- Mae pobl yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Ar draws pob maes o waith mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu cenedlaethau'r dyfodol, gan geisio gwneud y penderfyniadau gorau yn sgil y cyfyngiadau ariannol. Yn ogystal, mae'r Cynllun Corfforaethol yn ymrwymo i ystyried effaith y polisiâu ar gymunedau gwledig, y rhai sy'n cael eu hamddiffyn gan y ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a'r bobl sy'n byw mewn tldi. Bydd y Cyngor hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn magu hyder i fod yn flaengar. Mae harneisio potensial technoleg i wella perfformiad, prosesau busnes ac effeithlonrwydd yn flaenoriaeth strategol hyd at 2022.

3.3.2 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol

Mae ystod o gyfleusterau rheoli gwastraff yng Nghonwy, gan gynnwys dau safle gwaredu: Llanddulas, sy'n rheoli gwastraff nad yw'n beryglus, a Fferm Tŷ Mawr, sy'n rheoli gwastraff anadweithiol. Mae'r Cyngor yn gweithredu nifer o safleoedd amwynder dinesig a chanolfan swmpio ac mae'r gweddill yn cael eu gweithredu gan gwmnïau preifat. Mae Papur Cefndir ar Reoli Gwastraff yn nodi'r cyfleusterau a ganiateir yng Nghonwy h.y. y safleoedd sydd wedi derbyn trwydded amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n eu caniatáu i reoli gwastraff. Mae'r nifer cyfyngedig o gyfleusterau o gymharu â sawl awdurdod arall yng Ngogledd Cymru yn debygol o adlewyrchu natur wledig a chyfyngedig y Fwrdeistref Sirol.

Mae sawl caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo yn y Fwrdeistref Sirol ers mabwysiadu'r CDLI, fel y nodwyd yn y Papur Cefndir ar Reoli Gwastraff. Yn ogystal â hyn, bu archwiliadau gorfodi ar safle yn Abergele sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd drwy gyflwyno cais cynllunio. Mae'r defnydd o reoli gwastraff o fewn y safle wedi dwysau ac mae'r safle yn rheoli cryn dipyn yn fwy o wastraff nag o'r blaen. Yn arwyddocaol, mae'r safle yn awr yn cynhyrchu Tanwydd yn Deillio o Sbwriel (RDF) sy'n cael ei anfon o'r safle i'w adfer ac mae'r capasiti hwn yn sylweddol yn y cyd-destun lleol.

4. Polisi CDLI – Y Sefyllfa Bresennol

Cafodd y CDLI ei fabwysiadu ym mis Hydref 2013 a hyd yma mae wedi bod drwy'r broses o Fonitro Blyneddol bedair gwaith. Mae adran nesaf y papur testun hwn yn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol sydd wedi codi o'r Adroddiadau Monitro Blyneddol. Gellir canfod polisiâu'r CDLI presennol ar Fwynau a Gwastraff yn Atodiad 2 er gwybodaeth.

5. Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blyneddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu

Mae'r Adroddiad Monitro Blyneddol yn arddangos bod cyfres o ganiatâd cynllunio yn ymwneud â gwastraff wedi'u cymeradwyo yng Nghonwy, a thu allan i Gonwy ond o fewn rhanbarth Gogledd Cymru, i ymdrin â sgil-gynhyrchion Conwy. Mae Cyngor Conwy yn rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru sydd wedi caffael capasiti i reoli hyd at 200,000 tonnelli o wastraff gweddilliol bob blwyddyn. Er bod y cyfleuster yn cael ei ddatblygu yn Sir y Fflint, bydd yn gwasanaethu awdurdodau Partner, gan gynnwys Conwy. Mae Conwy hefyd wedi llunio partneriaeth gyda Sir Ddinbych a Sir y Fflint i gaffael capasiti trin gwastraff bwyd, gan arwain at ddatblygu cyfleuster treulio anaerobig yn Sir Ddinbych.

Ar gyfer mwynau, mae monitro blynyddol yn nodi bod cronfeydd helaeth a ganiateir yn y Fwrdeistref Sirol sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd gan yr RTS dros gyfnod y cynllun a thu hwnt.

Mae Tabl 2 isod yn deillio o Adroddiad Adolygu'r CDLI ac yn awgrymu pa bolisiau Mwynau a Gwastraff y CDLI sydd angen adolygiad sylweddol neu ysgafn.

Tabl 2: Polisiau Mwynau a Gwastraff sydd angen eu hadolygu (ffynhonnell: diwygiwyd o Adroddiad Adolygu CDLI).

Polisi	Sylwadau
MWS/1 Mwynau a Gwastraff	Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf (polisi strategol newydd)
MWS/2 Mwynau	Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/3 Diogelu Craig Galed ac Adnoddau Tywod a Graean	Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/4 Parth Clustogi Chwarel	Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/5 Cynigion ar gyfer Rheoli Gwastraff	Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/6 Lleoliadau ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff	Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/7 Defnyddio Tir Diwydiannol ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff	Adolygu'r polisi i ymgorffori'r sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/8 Parth Clustogi Tirlenwi	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen gwneud mân newidiadau

O ran perfformiad y polisi, er bod polisiau a chanllawiau cenedlaethol wedi newid mewn perthynas â gwastraff, ystyrir bod polisiau MWS/6 a MWS/7 yn ddigon hyblyg i allu cyflawni isadeiledd gwastraff. Mae TAN 21 yn cynnwys gofyniad rhanbarthol ar gyfer monitro a fydd yn monitro cynnydd a lefel y galw mewn perthynas ag adennill a gwaredu ac yn nodi lle bo angen gwneud darpariaeth ychwanegol. Os bydd darpariaeth ychwanegol wedi'i nodi yn angenrheidiol yng Nghonwy, byddai'n rhaid adolygu'r polisiau gwastraff i sicrhau y gellir nodi dyraniad priodol. Nid yw'n angenrheidiol nodi targed monitro neu lefel sbardun o fewn gwaith monitro ar gyfer y CDLI i fynd i'r afael â hyn, gan y byddai adolygiad o'r polisi yn cael ei gymhell gan newid cyd-destunol arwyddocaol a nodwyd gan yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff.

Mae Polisi MWS/5 yn cynnwys prawf sydd angen cynigion i ddangos eu bod yn diwallu galw a nodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol neu alw sy'n codi ar lefel leol. Ers dileu'r gofyniad i gynhyrchu ac ystyried Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol o'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol, gallai cymhwyso'r prawf hwn yn llym arwain at gymeradwyo cynigion sy'n groes i'r polisi a/neu ganllawiau cenedlaethol. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer rheoli gwastraff bu'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried a fyddai unrhyw ystyriaethau perthnasol yn cefnogi penderfyniad gwahanol. Byddai newidiadau i'r polisi a chanllawiau cenedlaethol yn cael eu hystyried yn arwyddocaol mewn perthynas â hyn. Fodd bynnag, argymhellir bod y polisi'n cael ei ddiwygio yn ystod adolygiad y CDLI er mwyn gallu mynd i'r afael â'r anghysondeb hyn ac i sicrhau bod y prawf 'angen' yn cael ei gymhwyso yn unol â TAN 21.

Yn dilyn adolygiad dilynol o'r sail dystiolaeth, mae Adran 8 o'r papur hwn yn mynd i'r afael â'r tabl uchod unwaith eto ac yn gwneud argymhellion o ran sut y dylid newid pob polisi i adlewyrchu'r sail dystiolaeth ddiweddaraf i'w gweithredu yn y CDLI Newydd.

6. Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddarau

6.1 Papur Cefndir Rheoli Gwastraff 36

Mae'r Papur Cefndir yn ddogfen dechnegol sy'n darparu gwybodaeth bellach ar y cymhellion dros newid o lefel Llywodraeth Ewropeaidd a Chenedlaethol a sut bydd hyn yn effeithio ar Gonwy. Mae'r prif bwyntiau o'r papur hwn wedi'u crynhoi o dan benawdau'r Papur Testun hwn.

6.2 Papur Cefndir Mwynau 37

Mae'r papur cefndir hwn yn egluro sut fydd y CDLI yn sicrhau bod cronfeydd agregau yn cael eu nodi a'u diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r prif bwyntiau o'r papur hwn wedi'u crynhoi o dan benawdau'r Papur Testun hwn.

7. Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae gwaith ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi dechrau. Bydd polisiau ar gyfer Mwynau a Gwastraff yn y CDLI Newydd yn ystyried y Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r Adroddiad Cwmpasu Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn amlinellu'r dull arfaethedig o ran Gwerthusiad Cynaliadwyedd y CDLI Newydd, yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol yn broses bwysig o ran nodi meysydd sy'n newid a mesurau lliniaru i sicrhau bod y CDLI Newydd yn gynaliadwy ac yn cydymffurfio â Deddf Cynllunio (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae adroddiad cwmpasu'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cyflwyno sawl cwestiwn i sicrhau fod gan bolisiau a safleoedd newydd ganolbwynt cynaliadwy. Mae'r cwestiynau fel a ganlyn ar gyfer mwynau a gwastraff:

A fydd y CDLI Newydd:

- Yn lleihau cynhyrchu gwastraff?
- Yn hyrwyddo egwyddorion economi gylchol?
- Yn trin a phrosesu gwastraff gyda'r lleiafswm o ran effaith amgylcheddol?
- Yn lleihau'r galw am ddeunyddiau crai a'r angen ar gyfer echdynnu mwynau?
- Yn hyrwyddo'r defnydd o adnoddau lleol a lleihau mewnfario mwynau?

Bydd y polisiau yn cael eu hadolygu yn unol â'r egwyddorion arweiniol hyn i sicrhau bod y CDLI Newydd mor gynaliadwy â phosibl.

8. Polisiau a Chynigion Defnydd Tir Posibl

****Bydd yr adran hon yn cael ei datblygu ymhellach wrth i adolygiad y CDLI symud ymlaen****

Polisi Strategol MWS/ 1 Mwynau a Gwastraff

Polisi Strategol MWS/1 Mwynau a Gwastraff, yw'r polisi trosfwaol ar gyfer gwastraff ac mae'n cael ei gefnogi gan sawl polisi manwl, gan gynnwys MWS/5, MWS/6, MWS/7 a MWS/8. Nid yw Polisi MWS/1 yn cyfeirio at yr angen i gymell rheoli gwastraff i fyny'r Hierarchaeth Gwastraff, yn unol â'r polisi cenedlaethol a dylid ei ddiwygio fel y bo'n briodol.

Polisi MWS/2 Mwynau

Mae'r polisi yma'n cyfeirio at chwareli presennol ym Mhenmaenmawr, Llysfaen (Raynes) a Llansan Siôr. Mae'n debyg y bydd polisi tebyg yn cael ei gadw yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Mae **Polisi MWS/3 Diogelu Craig Galed ac Adnoddau Tywod a Graean** yn bolisi manwl sy'n egluro bod isadeiledd gan gynnwys glanfeydd a phen rheilffyrdd hefyd wedi'u diogelu. Mae'r CDLI yn diogelu tywodfaen gyda'r potensial ar gyfer agregau manyleb uchel, sydd wedi'i nodi fel mwyn Categori 1 o fewn Mapiau Diogelu Agregau. Mae dosbarthu'r math hwn o fwyn ger yr arwyneb yn gyfyngedig iawn yng Ngogledd Cymru o gymharu â De Cymru sydd â defnydd helaeth. Mae dyddodion yn y Fwrdeistref Sirol yn fach, ar wahân, ac mewn lleoliadau lle bo pwysau datblygu yn debygol o fod yn gyfyngedig i ddatblygiad amaethyddol a ffermydd gwynt. Mae cymhwyso clustog o 200m wedi arwain at ddiogelu ardaloedd eithaf mawr sy'n ddiangen ac anghymesur. O ystyried yr uchod, argymhellir nad yw'r mwyn yn cael ei ddiogelu drwy'r CDLI mwyach.

Mae tywod a graean Categori 1 a 2 wedi'u diogelu drwy'r CDLI. Mae'r dyddodion yn dywod a graean o ansawdd isel yn gyffredinol, yn gyfyng ac yn dilyn afonydd ac o fewn y gorlifdir. Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2004 yn ystyried yr adnoddau tywod a graean posibl yng Ngogledd Orllewin Cymru. Nodwyd dau adnodd yn Nyffryn Conwy, i'r de o Lanrwst hyd at gyrion Conwy, fel rhai posibl, er mae tri chwarter y bloc yn Lanrwst eisoes wedi'i sterileiddio. Ychydig iawn o wybodaeth daearegol sydd am dywod a graean mewn mannau eraill, ond o fapio BGS deallir ei fod yn wael ac yn llawn clai. Ni fu pwysau i drin tywod a graean yng Nghonwy hyd yn hyn. Ni fu pwysau ychwaith i drin tywod a graean o ansawdd uchel yn Sir Ddinbych er gwaethaf y fframwaith polisi cadarnhaol lle y byddai echdyniad yn cael ei gefnogi. Yn sgil hyn, argymhellir mai dim ond tywod a graean Categori 1 sy'n cael eu diogelu o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae nifer o ddyddodion bychan ar wahân ar draws y Fwrdeistref Sirol na fyddai'n hyfyw i'w drin ar sail fasnachol. Ar ôl cymhwyso parth clustogi mae hyn yn arwain at ardal fwy i'w diogelu sy'n anghymesur ac yn ddiangen. Felly argymhellir nad yw dyddodion bychan ar wahân o lai na 100m ar y pwynt lletaf yn cael eu diogelu.

Mae creigiau caled categori 1 a 2 (neu greigiau mâl), gan gynnwys calchfaen, yn cael eu diogelu drwy'r CDLI. Mae brigiadau calchfaen pur ar y Gogarth wedi'i echdynnu'n hanesyddol. Mae calchfaen o ansawdd is wedi'i ddefnyddio'n hanesyddol yn Llanddulas, ac yn parhau i gael ei echdynnu yn y Fwrdeistref Sirol yn Chwarel Raynes a Llansan Siôr. Mae'r un brigiadau yn cael ei drin yn Ninbych, Sir Ddinbych. Mae creigiau igneaid yn cael eu nodi o dan Categori 2 ac yn cael eu trin ym Mhenmaenmawr. Mae Penmaenmawr yn chwarel ddiorit a oedd yn allforio balast rheilffordd i Loegr ar y rheilffordd yn flaenorol, ond mae hyn wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, ystyrir, gan fod gan y deunydd ddisbarthiad cyfyngedig o fewn Conwy y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a bod diddordeb masnachol o ran ei drin, dylid ei ddiogelu yn y CDLI.

Ystyrir bod geiriad y polisi ym MWS/3 yn briodol i sicrhau bod presenoldeb mwyn sydd o bwys economaidd yn cael ystyriaeth ddigonol wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau. Byddai'r newidiadau a argymhellir uchod yn golygu bod angen diwygio mapiau'r cynigion.

Polisi MWS/5 Cynigion ar gyfer Rheoli Gwastraff

Mae Polisi MWS/5: Cynigion ar gyfer Rheoli Gwastraff: yn cefnogi cynigion lle eu bod yn diwallu angen a nodwyd yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru neu fod angen yn codi ar lefel leol; ar yr amod nad yw cyfleusterau presennol neu a gymeradwywyd yn gallu diwallu'r angen; yn cefnogi adennill gwerth o'r gwastraff; yn cysylltu gofynion a nodwyd ym mholisiau eraill ein Cynllun.

Nid oes yn rhaid i'r CDLI ystyried y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol bellach gan ei fod wedi dyddio ac nad yw'n berthnasol mwyach at ddibenion cynllunio gwastraff. Mae Cynllun Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd Sector (CIMS) wedi'i gadarnhau yn TAN 21 gan ddarparu man cychwyn i sefydlu a oes rhwydwaith ddigonol ar gyfer gwaredu ac adennill gwastraff trefol cymysg, fel y diweddarwyd gan fonitro rhanbarthol. Nododd CIMS fwllch o ran capasiti o rhwng 203 a 468 miloedd o dunelli y flwyddyn ar gyfer trin gwastraff gweddilliol. Mae'r amrywiad yn deillio o ansicrwydd o ran sgil-gynhyrchion a llwyddiant rhaglenni lleihau gwastraff a mentrau ailgylchu. Mewn perthynas â thirlenwi, nododd CIMS mai yn y sefyllfa waethaf posibl, byddai tirlenwi yn rhedeg allan o le yn 2016/17 a'r sefyllfa orau posibl yw y byddai gofod tirlenwi yn para am gyfnod amhenodol.

Mae CIMS yn rhybuddio yn erbyn gorddarparu mathau o gyfleusterau ac mae TAN 21 yn cynghori y gellir cyfiawnhau gorddarpariaeth ar sail y byddai'r cyfleuster yn cael ei leoli'n gynaliadwy yn unig. Felly, mae angen cydbwysu rhwng sicrhau bod darpariaeth yn ddigonol tra'n osgoi gorddarpariaeth. Mewn perthynas â chapasiti tirlenwi, mae TAN 21 yn nodi'r lefel y dylid cynnal capasiti a'r sbardun ar gyfer gweithredu. Hyd yma, ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer gweithredu gan fod tunelli o wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi wedi gostwng bob blwyddyn. Mewn perthynas ag adfer gwastraff, mae capasiti sylweddol yn cael ei ddatblygu a fyddai'n rheoli gwastraff awdurdodau lleol am y 25 mlynedd nesaf. Mewn perthynas â mathau eraill o gyfleusterau gwastraff, mae lefelau o alw yn llai eglur, a, chyn belled ag y bo cyfleusterau wedi'u lleoli yn briodol a bod rheolaeth gwasanaeth yn symud i fyny hierarchaeth gwastraff, mae gorddarpariaeth yn llai tebygol o achosi niwed.

Polisi MWS/6 Lleoliadau ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff

Mae Polisi MWS/6 yn amddiffyn Chwarel Llanddulas a Gofer ar gyfer cyfleusterau gwastraff ac yn nodi ystod o fathau o gyfleusterau a allai fod yn addas yn y safleoedd hyn. Nodwyd y gofyniad i ddyrannu tir ar gyfer rheoli gwastraff yn Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a nodwyd bod y dyraniadau yn ddigonol i ddiwallu'r galw a nodwyd. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn berthnasol mwyach ac felly nid yw'r angen ar gyfer y tir yn feintioledig bellach. Mae'r capasiti sy'n cael ei ddatblygu o fewn y rhanbarth yn ddigon i ddiwallu'r trothwy is a nodwyd yng Nghynllun CIMS ac mae capasiti gwaredu'r rhanbarth wedi'i nodi fel digonol ar hyn o bryd. Er hyn, mae angen ystyried gofynion rheoli gwastraff drwy'r CDLI Newydd i sicrhau bod safleoedd yn addas ac ar gael mewn gwirionedd. Bydd methu â mynd i'r afael â'r mater drwy'r CDLI Newydd yn golygu bod y Cyngor yn agored i geisiadau ar safleoedd tir glas.

Mae Llanddulas yn eiddo i gwmni preifat, FCC, sy'n gweithredu safle tirlenwi ar gyfer eitemau nad ydynt yn beryglus a chyfleuster compostio o'r safle. Mae'r ardal a nodwyd ar gyfer gweithrediadau rheoli gwastraff yn y dyfodol wedi bod yn destun dau gais cynllunio: 0/38815, a gymeradwywyd yn 2012 ac sydd wedi dod i ben yn awr a 0/43047 a gymeradwywyd ar 03/02/2017 ar gyfer gorsaf drosglwyddo gwastraff a fyddai'n rheoli hyd at 40,000 tonnall o wastraff dinesig a 40,000 tonnall o wastraff anadweithiol fesul blwyddyn.

Mae Gofer yn eiddo i'r Cyngor ac yn hen safle tirlenwi dinesig. Cafodd argaeledd Gofer ei graffu yn ystod apêl, cyfeirnod APP/T6905/A/15/3140639. Roedd yr apêl yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio, cyfeirnod 0/41842, ar gyfer newid defnydd y tir i ganiatáu estyniad o'r safle rheoli gwastraff presennol ar dir i'r gorllewin o Gofer. Mae'r Cyngor wedi comisiynu astudiaeth i archwilio potensial y safle i dderbyn datblygiad, gan ystyried materion halogi ar y safle. Roedd dwy ran i'r astudiaeth, roedd y rhan olaf yn darparu asesiad manwl o halogi a'r gwaith adfer sy'n ofynnol i hwyluso datblygu. Casgliad yr astudiaeth yw y gall y safle dderbyn datblygiad awyr agored ond y byddai adeiladu adeilad yn golygu y byddai angen lliniaru sylweddol gan olygu y byddai'r gost yn ei atal. O ganlyniad, mae angen adolygu dyraniad Gofer drwy broses y CDLI Newydd.

Yn ogystal â'r safleoedd a ddyrannwyd, mae tir diwydiannol o fewn y Fwrdeistref Sirol, Ystâd Ddiwydiannol Tre Marl, sydd â safle rheoli gwastraff mawr ar fin cael ei golli oherwydd cais a

gymeradwywyd ar gyfer archfarchnad fwyd a bwyty newydd. Mae'r gweithredwr gwastraff yn chwilio am leoliad amgen o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn ceisio datblygu gorsaf drosglwyddo i gefnogi Prosiect Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Byddai dyrannu safleoedd yn darparu sicrwydd i'r diwydiant ac yn sicrhau bod cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu datblygu mewn lleoliadau priodol.

Polisi MWS/7 Defnyddio Tir Diwydiannol ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff

Mae Polisi MWS/7 yn cyfeirio cyfleusterau rheoli gwastraff tuag at ystadau diwydiannol presennol a chyfleusterau llwytho rheilffyrdd. Mae'r polisi yn cynnwys prawf cymalog sy'n cefnogi datblygiad y safleoedd y tu allan i ffiniau datblygu lle nad yw safleoedd presennol neu wedi'u dyrannu ar gael. Mae cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn hanfodol oherwydd nid yw pob cyfleuster rheoli gwastraff yn briodol ar gyfer safleoedd diwydiannol. Efallai y bydd rhesymau lleoliadol pam y dylid lleoli cyfleuster mewn cefn gwlad agored. Defnyddiwyd y polisi fel un o'r rhesymau dros wrthod yn yr apêl o dan gyfeirnod APP/T6905/A/15/3140639.

Polisi MWS/ 8 Parth Clustogi Tirlenwi

Mae'r polisi'n cymhwyso parth clustogi o 250m o amgylch safle tirlenwi, ac o fewn hynny bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol, a allai gynnwys datblygiad preswyl, cyflogaeth, twristiaeth a chyfleusterau cymunedol. Mae'r parth clustogi wedi'i nodi oherwydd materion diogelwch posibl sy'n gysylltiedig â gwenwyno â nwy o'r safle a'r posibilrwydd o niwsans sy'n deillio o weithgareddau tirlenwi. Yr haenau gwaelodol yw calchfaen a fyddai'n darparu llwybrau posibl ar gyfer mudo nwyon.

Mae gweithredwr y safle tirlenwi wedi nodi y bydd y safle tirlenwi yn peidio â derbyn gwastraff nad yw'n beryglus o fewn cyfnod oes Adolygiad y CDLI ac yn ystyried defnydd amgen ar dir o fewn eu rheolaeth. Ar hyn o bryd, argymhellir bod y polisi a'r parth clustogi cysylltiol yn cael eu cadw, ond efallai y bydd angen adolygu'r geiriad yn sgil y bwriadau ar gyfer dyfodol y safle.

Dyraniadau Arfaethedig

Fel rhan o'r CDLI Newydd, ystyriwyd effaith dyrannu tir yn erbyn colled mwynau mewn ardaloedd sydd ar sylfaen o fwynau o bwysigrwydd economaidd. Bydd angen cynnal yr ymarfer ar gyfer unrhyw safleoedd newydd a gynigir drwy'r Adolygiad. Yn gyffredinol, oherwydd bod y dyraniadau yn rhai bach o ran maint ac yn agos at ddatblygiad sensitif presennol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai eu dyraniad yn arwain at golli mwynau pwysig. Mae pwysau datblygu o fewn y Fwrdeistref Sirol yn hynod sylweddol ar hyd yr arfordir, mewn ardaloedd â sylfeini calchfaen a bydd angen eu hystyried yn ofalus drwy adolygiad y CDLI i sicrhau nad yw'r mwynau pwysig yn cael eu sterileiddio.

9. Yr Angen am Sail Dystiolaeth Bellach

Asesiad safle i gadw safle chwarel Llanddulas at ddibenion rheoli gwastraff.

10. Casgliad

Mae Papur Testun Mwynau a Gwastraff yn ceisio sefydlu'r materion allweddol sydd angen sylw a'r dystiolaeth sy'n ofynnol yn gynnar ym mhroses y CDLI Newydd, ond gan y bydd y Cynllun yn cymryd o leiaf tair blynedd cyn ei fabwysiadu, efallai y bydd tystiolaeth a materion newydd yn codi. Yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol sydd ar gael credir y byddai'r dull arfaethedig ar gyfer y polisïau newydd a pholisïau diwygiedig yn darparu sylfaen sy'n fwy cadarn i hwyluso gwell rheolaeth o wastraff (yn nhermau defnydd tir) a diogelu cronfeydd mwynau. Bydd Tîm Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru sy'n arwain adolygiad polisi mwynau a gwastraff y CDLI ar ran Conwy yn adolygu'r sail dystiolaeth yn rheolaidd i nodi unrhyw newidiadau strategol allweddol i amcanion polisi a thystiolaeth ac yna'n cynhyrchu diweddariadau i'r papurau cefndir ac yn argymhell newidiadau i'r Papur Testun hwn.

Atodiad 1 – Polisiâu Presennol y CDLI

POLISI STRATEGOL MWS/1 – MWYNAU A GWASTRAFF

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol o adnoddau mwynol a chyfleusterau rheoli gwastraff, wrth ddiogelu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy:

- a) Ddiogelu cronfeydd a ganiateir o graig galed ym Mhenmaenmawr, Raynes (Llysfaen), Llanddulas a Llan San Siôr ac adnoddau ychwanegol o graig galed fel amlygwyd ar y map cynigion yn unol â Pholisiâu MWS/2 - 'Mwynau' a MWS/3 - 'Diogelu Craig Galed, a Thywod ac Adnoddau Graean';
- b) Caniatáu cloddio mwynau agregau yn y dyfodol yn unig ble mae angen cynnal stoc o gronfeydd wrth gefn a ganiateir yn unol â Pholisi MWS/2;
- c) Ddynodi ardaloedd diogelu o amgylch chwareli i ddiogelu amwynder a sicrhau nad yw gweithgareddau mwynau wedi'u cyfyngu yn ormodol gan ddefnyddwyr tir eraill yn unol â Pholisi MWS/4 – 'Lleiniau Diogelu Chwareli';
- d) Ddiogelu adnoddau graean a thywod fel amlygwyd ar y map cynigion yn unol â Pholisi MWS/3;
- e) Nodi Llanddulas a Gofer (a ddangosir ar y Prif Ddiagram) fel lleoliadau ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn unol â Pholisi MWS/6 – 'Lleoliadau ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff';
- f) Ystyried addasrwydd tir diwydiannol presennol a/ neu dir a ddiogelwyd ar gyfer cludiant â thrên ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd, sy'n cyd-fynd â defnydd cyfagos, yn unol â Pholisi MWS/7 – 'Defnyddio Tir Diwydiannol ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff' STR/6 'Cludo â Thrên' ac EMP/3 – Datblygiadau Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd na Ddyrannwyd';
- g) Gwrdd â'r angen ychwanegol yn y dyfodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn unol â Pholisi MWS/5 – 'Cynigion ar gyfer Rheoli Gwastraff';
- a) Ddynodi llain ddiogelu tirlenwi o gwmpas safle tirlenwi Llanddulas er mwyn sicrhau mai dim ond datblygiadau priodol gaiff eu caniatáu yn y safle hwn yn unol â Pholisi MWS/8 – 'Parth Byffer Tirlenwi'.

POLISI MWS/2 – MWYNAU

1. Bydd y chwareli presennol ym Mhenmaenmawr, Raynes (Llysfaen) a Llan San Siôr yn darparu cyfraniad y Ardal y Cynllun i gyflenwad craig galed ranbarthol.
2. Bydd ceisiadau ar gyfer cloddio mwynau agregau yn y dyfodol mewn mannau eraill gan gynnwys estyniadau i chwareli presennol o fewn Ardal y Cynllun ond yn cael ei ganiatáu pan fo angen cynnal stoc o gronfeydd wrth gefn a ganiateir gan ystyried ffigyrau Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru, neu, pan nad oes ffigwr yn bodoli, angen amlwg y diwydiant dan sylw.

POLISI MWS/3 – DIOGELU CREIGIAU CALED A THYWOD AC ADNODDAU GRAEAN

1. Mae'r adnoddau a chyfleusterau perthnasol canlynol wedi'u cynnwys o fewn y dynodiad Craig Galed wedi'i Diogelu neu Dywod a Graean:
 - a) Y creigiau caled wrth gefn a ganiateir yn Chwarel Penmaenmawr, gan gynnwys manau prosesu, rheilffordd a dolen gludo;
 - b) Y creigiau caled wrth gefn a ganiateir yn Chwarel Raynes, gan gynnwys manau prosesu a'r manau lle leolir y jeti a'r ddolen gludo;
 - c) Y creigiau caled wrth gefn a ganiateir yn Chwarel Llanddulas (y tu allan i'r safle tirlenwi), gan gynnwys y manau lle lleolir yr hen jeti a'r hen ddolen gludo.
 - d) Y creigiau caled wrth gefn a ganiateir yn Chwarel Llan San Siôr, gan gynnwys manau prosesu;
 - e) Creigiau caled ychwanegol, fel nodwyd ar y Map Cynigion.
 - f) Adnoddau tywod a graean fel nodwyd ar y Map Cynigion.
2. Ni fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer unrhyw ddatblygiad o fewn y dynodiad Craig Galed neu Dywod a Graean wedi'i diogelu a allai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol niweidio hyfywdra gweithio'r adnoddau hyn yn y tymor hir oni bai:
 - a) Gellir dangos bod yr angen am ddatblygiad yn bwysicach na'r angen i ddiogelu'r adnoddau mwynau; neu
 - b) Lle na fyddai datblygiad o'r fath yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd y mwynau y gweithir arnynt, neu
 - c) Lle mae'r mwynau yn cael eu cloddio cyn datblygu.
3. Mewn achosion lle nad yw ansawdd a dyfnder craig galed a ddiogelir neu adnoddau tywod a graean wedi ei brofi, gallai mathau eraill o ddatblygu fod yn unol â'r dull diogelu ar yr amod bod yr ymgeisydd yn cyflwyno tystiolaeth, fel samplau twll turio, i ddangos na fyddai unrhyw adnoddau craig galed neu dywod a graean â hyfywdra masnachol yn cael eu heffeithio.

POLISI MWS/4 – LLEINIAU DIOGELU CHWARELI

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol o fewn y lleiniau diogelu chwareli.

POLISI MWS/5 – CYNIGION AR GYFER RHEOLI GWASTRAFF

Caniateir cynigion ar gyfer ddatblygu rheoli gwastraff, gan gynnwys newid ac estyn cyfleusterau presennol, dim ond lle :

- a) Bod y cais yn ateb angen a nodwyd yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, neu fod angen ar lefel lleol;
- b) Ni ellir ateb yr angen drwy gyfleusterau rheoli gwastraff presennol neu gyfleusterau a gymeradwywyd neu fod y gweithgarwch arfaethedig yn anaddas yn y lleoliadau hynny;
- c) Lle bo'n bosibl, bod y cais yn adennill gwerth o'r gwastraff;
- d) Fod y cais yn cyd-fynd â Pholisïau Strategol NTE/1 – 'Yr Amgylchedd Naturiol', a CTH/1 – 'Treftadaeth Ddiwylliannol' a'r Egwyddorion Datblygu.

POLISI MWS/6– LLEOLIADAU AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF

1. Mae'r Cynllun yn nodi ac yn amddiffyn y safleoedd a ganlyn ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff, fel y dangosir ar Map y Cynigion:
 - a) Chwarel Llanddulas
 - b) Gofer, Ffordd Rhuddlan, Abergele.

2. Yn amodol ar asesiad manwl, efallai bod y gwaith a ganlyn yn addas yn y lleoliadau hyn:
 - a) Ailgylchu Deunyddiau
 - b) Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff
 - c) Prosesu Deunyddiau i'w Hailgylchu
 - d) Treulio Anaerobig
 - e) Compostio'n Fewnol
 - f) Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi
 - g) Triniaeth Biolegol Mecanyddol
 - h) Adennill Ynni

Ond, nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac ystyrir ceisiadau eraill ar gyfer rheoli gwastraff ar ei haeddiannau yn unol â'r meini prawf ym mholisi MWS/5.

POLISI MWS/7 – DEFNYDDIO TIR DIWYDIANNOL AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF

1. Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn gyffredinol yn cael eu caniatáu ar safleoedd diwydiannol presennol ac ar safleoedd a ddiogelir o dan Bolisi STR/6.
2. Pan nad oes safleoedd diwydiannol presennol ar gael, gellir caniatáu cynigion ar gyfer rheoli gwastraff tu allan i ffiniau datblygu yn unol â pholisïau EMP/3 ' Datblygiadau Swyddfa a Diwydiannol B1, B2 a B8 Newydd ar Safleoedd na Ddyrannwyd'.
3. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle gellir dangos byddai gan gynnig ofynion technegol neu ofodol penodol, sy'n gwrthdaro â gofynion polisi EMP/3, gellir caniatáu cynigion nad

ydynt yn cyd-fynd â pholisi EMP/3 ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff tu allan i ffiniau aneddiadau.

POLISI MWS/8 – LLAIN DDIOGELU TIRLENWI

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad bregus o fewn y llain ddiogelwch tirlenwi.